

# Mynediad i bawb

*“Galwasant ef Obed; ef oedd tad Jesse, tad Dafydd.” (adn. 17)*

## Beth am ddarllen Ruth 4:13–17 ac yna myfyrio

Mae pwrpas rhyfeddol iawn y tu ôl i arweiniad Duw i gynnwys stori Ruth yn rhan o'r Ysgrythur. Mae'r llyfr bach yma'n dangos mor glir i ni'r ffordd mae Duw'n cymryd pobl gyffredin a'u codi nhw o'u cyffredinedd i mewn i ddrama ei epig fawr ef. Mae yna, wrth gwrs, gymeriadau eraill yn ogystal â Naomi, Ruth a Boas yn y llyfr, ac er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n ddienw, maen nhw hefyd yn bwysig: y dyn ifanc a oedd yn fforman ar y medelwyr, er enghraifft, y perthynas agosach ym mhennod 4, y ddynes anhysbys a gyhoeddodd fod gan Naomi fab yn 4:17, ac yn y blaen. Maen nhw hefyd yn dod i mewn i'r stori. Pwy a wŷr pe bai'r golau yn disgyn arnyn nhw y gallen nhw adrodd storïau hefyd, er nad mor ddramatig ag un Ruth, ond a fyddai ag arwyddocâd iddyn nhw.

Rhaid inni nawr roi sylw i eiriau olaf y llyfr, yn arbennig yr adnod yn ein testun heddiw. Mae'r adnod fel petai hi'n gwneud dim mwy na gwneud datganiad syml am achau'r teulu, ond y fath drysor o wirionedd a geir ynddi hi. Gafaela'r geiriau yn ein llaw a'n harwain oddi wrth stori ramantus at ddealltwriaeth o sut mae cymeriadau cyffredin yn cael eu dal i fyny a'u cynnwys mewn stori fwy. Dweud hyn mae'r geiriau mewn gwirionedd: “Gwelwch nawr fel mae Duw wedi plethu y pethau a ddigwyddodd i'r cymeriadau yma i mewn i'w stori ef ei hun – stori iachawdwriaeth. Daeth Ruth yn fam i Obed a oedd yn dad i Jesse, a oedd yn dad i Dafydd... o linach yr hwn y daeth y Meseia ei hun.”

Ni ddylid darllen stori Ruth, felly, er mai naratif yn gallu sefyll ar ei phen ei hun ydy hi, heb fod yn ymwybodol o'r darlun cyflawn. Stori ydy hi sy'n ein harwain i mewn i epig Duw. A gall unrhyw un ddod i mewn i'r stori yna – dim ond iddyn nhw fod yn barod i ddod i mewn drwy'r drws, sef, Iesu Grist, wrth gwrs.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 8:18; 8:35–39; 2 Cor. 4:16–18

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy'n ei gwneud hi'n bosibl i oddef popeth?
2. Sut allwn ni gadw cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n rhaid i ni ei ddioddef a'r hyn yr ydym yn disgwyl amdano?

## Gweddi

O Dad, sut allaf i byth ddiolch digon i ti fy mod i wedi cael dod i mewn drwy'r drws a dod yn rhan o hanes dy iachawdwriaeth? Gallaf oddef unrhyw beth a ddigwydd i mi pan rwy'n gallu ei weld yn cyfrannu at dy stori di. Amen.